Llais,
33-35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9HB

Llais,
33-35 Cathedral Road,
Cardiff,
CF11 9HB

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

[redacted]

request-1194848-e8d0f662@whatdotheyknow.com

Rhif Cyfeirnod: LLAIS FOI-2024-005

27 Tachwedd 2024

[redacted]

Ymhellach i'ch e-bost ar 31 Hydref 2024 yn gofyn am y wybodaeth ganlynol: **Cais Rhyddid Gwybodaeth - Safonau'r Gymraeg ar gyfer Llais** Rwyf wedi trin eich gohebiaeth fel cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Byddaf yn ddiolchgar pe byddech yn dod o hyd i ymatebion isod i bob un o'ch cwestiynau ac unrhyw ddogfennaeth ategol lle bo'n briodol.

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer Llais ar 1 Ebrill 2024. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i sicrhau bod Llais wedi'i baratoi ac wedi bod yn ceisio ymateb yn weithredol i'r safonau. Bydd adroddiad diweddaru cychwynnol ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Rhagfyr 2024. Bydd adroddiad cydymffurfio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Faint o gyfarfodydd Pwyllgor ARAC sydd wedi cael eu cynnal ers ffurfio Llais?** Cafwyd cyfanswm o 7 cyfarfod ers Ebrill 2023.

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.
We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

**Pwy yw'r aelod o Bwyllgor ARAC sydd â chyfrifoldeb dros gydymffurfio â safonau'r Gymraeg?** Mae holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gyfrifol am graffu ar gydymffurfiaeth y sefydliad â safonau'r Gymraeg.

**Pwy yw aelod Bwrdd Llais sy'n arwain ar faterion Cymraeg a chydymffurfiaeth â'r safonau?** Alyson Thomas, Prif Weithredwr Llais yw'r arweinydd dynodedig ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, Ben Eaton, Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu yw'r arweinydd gweithredol.

**A gaf i gael copi o'ch cofnodion Cyfarfod Pwyllgor ARAC ac unrhyw ddogfennau ategol sy'n sôn am Safonau'r Gymraeg?** Ynghlwm ceir y cofnodion o fis Mawrth 2024 mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cais hwn peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi. Dyfynnwch y cyfeirnod uchod mewn unrhyw gyfathrebiadau yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

Kirsty Contreras-Stacey
Swyddog Llywodraethu

Cadeirydd / Chair: **Athro / Professor Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr / Chief Executive: **Alyson Thomas**
E-bost / E-mail: **enquiries@llaiscymru.org**
Ffôn / Tel: **02920 235558**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.
We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.